

Talu am Ofal Preswyl Y Cynllun Taliadau Gohiriedig

Beth yw'r Cynllun Taliadau Gohiriedig?

Os ydych chi'n berchennog ar eich cartref ac yn ystyried gwerth eich tŷ wrth gyfrifo ffioedd tuag at ofal preswyl, mae'r cynllun hwn wedi'i ddylunio i'ch helpu chi gyda thaliad eich ffioedd cartref gofal. Gallwn gynnig benthyciad i chi i dalu unrhyw ddiffygion yn eich ffioedd llety a aseswyd os nad ydych yn dymuno gwerthu eich cartref, neu'n methu â gwerthu eich cartref mewn pryd i dalu am eich gofal. Gelwir hyn yn Taliadau Gohiriedig.

Sut ydw i'n cymhwyso ar gyfer y cynllun?

I ymuno â'r cynllun, mae'n ofynnol bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal asesiad fel sy'n ofynnol gan ofal nyrsio neu breswyl, a'ch bod yn gymwys i nawdd gan y Cyngor. Mae'n rhaid i chi gael buddiant llesionol yn yr eiddo yr ydych wedi bod yn byw ynddo, sydd werth digon i dalu am gyfnod y lleoliad. Mae'n rhaid i chi hefyd dalu cyfraniad wythnosol yn seiliedig ar asesiad incwm ac asedau. Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgwyl bod asedau digonol i dalu am 3 blynedd o gostau gofal, o leiaf.

Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Bydd gwerth eich tŷ yn cael ei ddiystyru am y deuddeg wythnos gyntaf. Ar ôl deuddeg wythnos, efallai y bydd y Cyngor yn caniatáu i chi 'ohirio'r' diffygion rhwng y costau gofal a'ch cyfraniad a aseswyd. Yn gyfnewid am hyn, bydd y Cyngor yn talu gweddill y costau gofal hyd at gyfradd y cytunwyd arni, a fyddai'n cael ei fodloni gan werthu'r eiddo.

Ar ôl y cyfnod deuddeg wythnos hwn, gallwch ddefnyddio'r cynllun i dalu am lety drytach, yn dibynnu ar werth net eich eiddo a chymeradwyaeth gan y Cyngor.

Beth os nad fi yw unig berchennog yr eiddo?

Efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gymryd Taliadau Gohiriedig os nad chi yw unig berchennog yr eiddo, cyn belled bod eich cyfran chi yn ddigon i ad-dalu'r benthyciad unwaith y caiff ei werthu. Mae'n bwysig eich bod yn trafod y mater gyda'ch cydberchennog a bod ef/hi yn arwyddo'r Cytundeb Taliadau Gohiriedig. Cynghorir iddynt gael cymorth cyfreithiol ac ariannol annibynnol.

Oes modd i mi rhentu fy eiddo?

Mae modd i chi rhentu eich eiddo, ond bydd unrhyw incwm rhent a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at eich ffioedd llety wythnosol. Bydd hyn yn lleihau'r swm sydd yn daladwy i ni hefyd.

Cynghorir i chi beidio â mynd i unrhyw gytundeb gosod cyn bod y Cytundeb Taliadau Gohiriedig a'r pridiant cyfreithiol ar waith. Argymhellir mai cytundebau tenantiaeth tymor byr sy'n cael eu gwneud oherwydd efallai bydd

rhaid gwerthu'r eiddo oherwydd marwolaeth i sicrhau bod y benthyciad yn cael ei dalu erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno. Byddwn yn gwneud cais i weld unrhyw gytundeb tenantiaeth ar gyfer ein cofnodion.

Beth os oes gen i forgais heb ei dalu'n llawn ar fy eiddo?

Byddwn yn ystyried eich cais. Fodd bynnag, bydd angen i chi fod yn fodlon bod gwerth yr eiddo yn ddigon i ad-dalu'r swm sy'n ddyledus i ni, unwaith mae'r morgais presennol wedi cael ei dalu. Byddwn yn sicrhau fod gennych adnoddau ariannol digonol ar gael i barhau i wneud eich taliadau morgais rheolaidd, yn ogystal â'ch ffioedd llety wythnosol.

Bydd rhaid i mi arwyddo contract?

Byddwn yn mynd i gontract cyfreithiol, sef y Cytundeb Taliadau Gohiriedig, gyda chi, neu eich cynrychiolydd a bennwyd gennych yn gyfreithiol, yn nodi eich bod yn cytuno i'n had-dalu pan fydd yr eiddo wedi'i werthu. Pan fyddwn yn mynd i Gytundeb Taliadau Gohiriedig gyda chi, byddwn yn gosod Pridiant Cyfreithiol ar eich eiddo a fydd yn cofrestru ein diddordeb yn yr eiddo gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae pridiant cyfreithiol yn debyg i forgais, sy'n golygu ein bod yn benthycy arian i chi heb log, a phan fydd yr eiddo wedi'i werthu neu pan gytunir ar eich ystâd, byddwn yn derbyn yr ad-daliad sy'n ddyledus i ni o enillion yr arwerthiant.

Ni fyddwch yn gallu diogelu arwerthiant yr eiddo neu drosglwyddo'r berchnogaeth nes ein bod yn tynnu ein Pridiant Cyfreithiol unwaith byddwch yn ad-dalu'r benthyciad.

A fydd ffi o ganlyniad i hyn?

Bydd gofyn i chi fodloni'r gost o osod Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae'n rhaid talu'r ffi hwn ar gais/derbyn anfoneb ac ni ellir ei ychwanegu i'r Benthyciad Taliadau Gohiriedig.

Bydd gofyn i chi dalu Cost Cyfraniad Cyfreithiol/Cost Weinyddol Blynyddol a Ffi Prisiad ar gyfer yr eiddo perthnasol hefyd.

Erbyn pryd fydd angen ad-dalu'r benthyciad?

Bydd angen ad-dalu'r benthyciad pan fydd yr eiddo wedi'i werthu, neu eich bod chi'n dod â'r cytundeb i ben. Bydd hyn yn digwydd ddiwrnod ar ôl i'r cytundeb ddod i ben, neu 90 diwrnod ar ôl eich marwolaeth. Os nad yw'r benthyciad yn cael ei ad-dalu i ni o fewn y terfyn amser, byddwn yn gosod llog ar y benthyciad sydd heb ei dalu, un ai o'r diwrnod y daw'r cytundeb i ben neu ar ddiwrnod 91 ar ôl marwolaeth, nes bod yr ad-daliad wedi cael ei wneud.

Beth yw manteision y cynllun?

Mae'r Cynllun Taliadau Gohiriedig yn caniatáu i chi hawlio Lwfans Gweini, neu os ydych dan 60 mlwydd oed, elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl pan rydych

yn derbyn gofal preswyl. Mae hyn yn golygu y bydd gennych incwm ychwanegol i gyfrannu tuag at eich ffioedd llety wythnosol a fydd yn lleihau'r swm sy'n ddyledus i ni.

Mae Taliadau Gohiriedig yn fenthyciad heb log, ac ni fyddwn yn codi unrhyw ffioedd llog tra bo'ch ffioedd llety yn cael eu gohirio.

Efallai y byddwch yn penderfynu rhentu eich cartref ac yn defnyddio'r incwm hwn i gyfrannu at eich ffioedd llety wythnosol, eto, bydd hyn yn lleihau'r swm sy'n ddyledus i ni yn y pendraw.

Efallai y byddwch yn dewis llety drytach a fydd yn achosi taliad yn ychwanegol at y ffioedd y mae'r Cyngor yn eu talu. Gellir ychwanegu hyn at y benthyciad Taliadau Gohiriedig.

Pan mae angen i chi ad-dalu'r benthyciad sy'n ddyledus i ni, yn dibynnu ar y swm a fenthycwyd, efallai y byddwch yn dewis ei dalu o'ch cynilion neu fenthyciad, ac ati, ac felly i ni fydd yr eiddo yn cael ei werthu o bosib.

Beth yw anfanteision y cynllun?

Os nad yw'r eiddo yn cael ei roi ar werth, efallai na fyddwch yn gymwys i Gredydau Pensiwn tuag at gost eich ffioedd llety. Gall hyn effeithio ar eich hawl i bethau megis prawf llygaid am ddim a thriniaethau deintyddol.

Dylech hefyd ystyried pa drefniadau y byddwch ei angen i sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw. Bydd gofyn i chi dalu yswiriant ar yr adeilad a'i gynnwys a thalu biliau ynni i osgoi difrod gan damprwydd a rhew.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor cyfreithiol ac ariannol cyn i chi fynd i Gytundeb Taliadau Gohiriedig gyda ni.

A ellir gwrthod fy nghais?

Gellir, mae cynnig taliadau gohiriedig yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Os bydd cais am Daliad Gohiriedig yn cael ei wrthod, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio hyn yn glir i chi. Gall rhesymau dros wrthod y cais fod oherwydd: -

- Fod gennych asedau eraill ar gael i chi i fodloni costau'r ffioedd megis cynilion sydd dros y trothwy cyfalaf
- Mae gennych forgais yn weddill i'w dalu ar eich eiddo na fydd yn ddigonol i ni adfer ein costau.
- Ni fyddai gwerth eich eiddo, neu eich cyfran chi o'r gwerth, yn gadael digon o gronfa i ni adfer ein costau
- Nid ydych yn berchen ar y tir (eiddo lesddaliad) ac mae gan y brydles llai na 20 mlynedd yn weddill

Rydw i'n ystyried gwneud cais am Daliadau Gohiriedig, beth yw'r camau nesaf?

Sicrhewch eich bod yn cael cyngor cyfreithiol ac ariannol. Gall Cyfreithiwr, Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, sefydliadau gwirfoddol/elusennol ac ati roi cyngor o'r fath i chi.

Os ydych chi'n gweithredu ar ran yr unigolyn sy'n dymuno gwneud cais, sicrhewch fod gennych awdurdod cyfreithiol i wneud hynny. Dylai hyn fod yn drefniant cyfreithiol cydnabyddedig megis Atwrneiaeth Arhosol neu Ddirprwyaeth. Eto, gellir cael cyngor gan asiantaethau'r Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus uchod (<https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian.cy>)

Os yw'r eiddo dan berchnogaeth ar y cyd, yna mae'n rhaid i'r cydberchennog fod yn fodlon arwyddo'r Cytundeb Taliadau Gohiriedig, a'u cynghori i gael cyngor cyfreithiol ac ariannol annibynnol.

Os ydych chi'n dymuno cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarganfod sut y gall eich budd-daliadau presennol gael eu heffeithio ac os oes gennych hawl i unrhyw fudd-daliadau ychwanegol.

Os gadewir eich eiddo yn wag, efallai y dymunwch drafod gyda'ch cwmni yswiriant am y sicrwydd yswiriant priodol sydd ei angen arnoch.

Efallai y byddwch yn dymuno trafod gyda theulu a ffrindiau am roi trefniadau ar waith i sicrhau bod yr eiddo yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn ddiogel.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gellir cysylltu â'r Tîm Asesiadau Ariannol:

Tîm Asesiadau Ariannol
Adeiladau'r Llywodraeth
Dinerth Road
Bae Colwyn
LL28 4UL

Ffôn 01492 574122

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais, cwblhewch y ffurflen amgaeedig a'i anfon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Tîm Asesiadau Ariannol, P O Box 1, Conwy LL30 9GL.

Ffurflen Gais Taliadau Gohiriedig

Sicrhewch eich bod yn cyfeirio at y nodiadau canllaw ar gefn y Ffurflen a fydd o gymorth i chi wrth gwblhau'r cais yn llawn ac yn gywir.

Adran A – manylion y preswlydd

Teitl..... Cyfenw.....

Enwau Cyntaf

Dyddiad Geni/...../.....

Adran B – cynrychiolydd yn gwneud cais ar ran y preswlydd

Teitl Cyfenw.....

Enwau Cyntaf
.....

Cyfeiriad.....

.....

.....Cod Post.....

Rhif ffôn.....

Perthynas i'r preswlydd.....

Oes gennych yr awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn a enwyd yn

Adran A uchod? Oes / Nac oes

Os **OES**, nodwch pa awdurdod sydd gennych

- Atwrneiaeth Arhosol
- Atwrneiaeth Barhaus
- Dirprwyaeth

(Amgaewch gopi o'r ddogfennaeth gyfreithiol berthnasol gyda'r ffurflen hon)

Os **NAC OES**, neu rydych yn y broses o wneud cais, ni fyddwch yn gallu parhau gyda'ch cais nes bod trefniadau o'r fath ar waith, a bod copi o'r ddogfennaeth gyfreithio berthnasol wedi dod i law.

Adran C – manylion am yr eiddo

Cyfeiriad.....

.....

.....Cod

Post.....

Nodwch os mai'r unigolyn a enwyd yn Adran A yw'r -

- Unig Berchennog
- Cydberchennog

Os ydych yn gydberchennog, nodwch enw/enwau a chyfeiriad y perchnog(ion) eraill fel y nodir ar weithred yr eiddo

.....

.....

Nodwch y flwyddyn y prynwyd y tŷ.....

Rhowch werth bras diweddar ar yr eiddo
£.....

A yw'r eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir? Do / Naddo

Os yn hysbys, beth yw rhif y teitl?

Oes morgais yn weddill ar yr eiddo? Oes/Nac oes

Os **OES**, cwblhewch y canlynol

Y swm sy'n weddill ar y morgais £.....

Benthyciwr Morgais.....

Amgawch gopi o ddatganiad morgais diweddar gyda'r ffurflen hon

Nodwch os oes gennych fwriad i rentu'r eiddo Oes/Nac oes

Os **OES**, beth yw'r incwm rhenti ddisgwyliedig wythnosol? £.....

Adran D – gwybodaeth arall

Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol arall

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Adran E - datganiad

- Rwy'n dymuno gwneud cais i'r cynllun Taliadau Gohuriedig ac rwy'n deall y caiff fy nghais ei dderbyn yn ôl disgrisiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Rwy'n deall bod y Taliadau Gohuriedig yn effeithiol pan cwblhawyd Cytundeb Taliadau Gohuriedig ac y gallaf dynnu fy nghais yn ôl os ydw i'n dymuno
- Os nad yw teitl yr eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir, gallaf gadarnhau y byddaf yn gwneud cais ar gyfer ei gofrestrriad gwirfoddol ac ar ôl cwblhau hyn byddaf yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'i rif cofrestru newydd
- Rwy'n cytuno mynd i Gyfyngiad neu Bridiant Cyfreithiol gyda'r Cyngor mewn perthynas â'r taliad gohuriedig ac wedi hynny, i gofrestrriad o'r fath Cyfyngiad neu Ffi yn daladwy gennyf yn y Gofrestrfa Tir
- Rwy'n cadarnhau fy mod yn berchen/cydberchennog ar yr eiddo a nodwyd yn Adran C ac fy mod yn awdurdodi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wneud y gwiriadau angenrheidiol i gadarnhau hyn.
- Rwy'n cytuno bod y Gofrestrfa Tir yn gosod Pridiant Cyfreithiol ar yr eiddo a nodwyd yn Adran C ac y byddaf yn bodloni'r fath gostau
- Rwy'n cytuno y byddaf yn gyfrifol am dalu fy ffioedd llety wythnosol wedi'u hasesu ac yn seiliedig ar fy incwm, fel y nodir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesiad Ariannol)
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y ffurflen gais a'r daflen gysylltiedig ac fy mod wedi cael cyngor i gael cyngor cyfreithiol ac ariannol
- Rwy'n deall os oes angen y wybodaeth fel rhan o ymchwiliad troseddol, neu i ddiogelu pobl rhag niwed, caiff y wybodaeth hon ei rhannu fel bo'n angenrheidiol
- Rwy'n deall bod gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddyletswydd i ddiogelu'r nawdd cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac oherwydd hyn, y gall ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer atal, neu dod i wybod am dwyll
- Gall rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu nawdd cyhoeddus ar gyfer y pwrpasau hyn hefyd.

- Rwy'n awdurdodi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i rannu'r wybodaeth hon; neu i wneud yr ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth o fewn y ffurflen gyda'r Asiantaethau perthnasol, mewn perthynas â phrosesu fy nghais
- Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon, hyd y gwn i, yn wir ac yn gofnod cywir.

Llofnod.....Dyddiad/...../.....

Enw mewn print bras:.....

Llofnodwyd ar ran.....

Llofnodwch ar ran y preswilydd os mai chi yw'r person a enwyd yn Adran B gyda'r awdurdod cyfreithiol i weithredu ar eu rhan yn unig

Canllaw ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais

Treuliwch amser yn darllen drwy'r ffurflen gais a chasglwch yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei angen arnoch i sicrhau bod y ffurflen yn cael ei

chwblhau mor gywir â phosib. Bydd unrhyw wybodaeth angenrheidiol nad yw'n cael ei gyflenwi, neu'n cael ei gwblhau'n anghywir yn creu oedi wrth brosesu'r cais.

Os ar unrhyw adeg y bydd arnoch angen canllawiau neu eglurhad pellach i'ch helpu i

gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â'r Tîm Asesiadau Ariannol.

Adran A

Y preswlydd yw'r unigolyn sy'n/fydd yn byw mewn lleoliad gofal preswyl Ac sy'n dymuno gohirio eu ffioedd llety wythnosol wedi'u hasesu.

Mae'n rhaid egluro, bydd y preswlydd yn llofnodi'r ffurflen

pan mae ganddynt y capasiti i ddeall beth maent yn ei arwyddo a deall ei oblygiadau yn llawn, yn unig.

Adran B

Os nad oes gan y preswlydd y capasiti, bydd angen cynrychiolydd arnynt i weithredu ar eu rhan.

Gallwch fod yn gynrychiolydd os oes gennych yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny

yn unig. Bydd yn drefniant cyfreithiol cydnabyddedig megis

Atwrneiaeth Arhosol/Dirprwyaeth. Amgaewch gopi o'r ddogfennaeth gyfreithiol berthnasol yn nodi'r fath awdurdod gyda'ch ffurflen gais.

Os nad oes gennych yr awdurdod cyfreithiol i weithredu, ni fyddwn yn gallu prosesu'r

cais nes bod y fath drefniadau ar waith. Os ydych chi yn y

broses o wneud cais, byddwn yn gohirio eich cais nes ein bod yn derbyn tystiolaeth ddogfennol gennych yn datgan ei fod wedi cael ei gymeradwyo.

Os oes gennych Benodedigion wedi'u cymeradwyo gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, eich caniatáu i ymdrin â budd-daliadau unigolyn y mae hyn yn unig ac

felly, bydd angen i chi wneud trefniadau cyfreithiol fel yr amlinellir uchod.

Gellir cael cyngor pellach ar sut i wneud y fath drefniadau gan asiantaethau megis Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, Canolfan Cyngor ar Bopeth, cyfreithiwr lleol, sefydliadau gwirfoddol/elusennol ar gyfer yr henoed ac ati.

Adran C

Os oed cydberchnogion eraill, bydd angen eu henwau'n llawn ac eu cyfeiriadau presennol.

Os nad ydych yn sicr a oes cydberchnogion, neu nid oes gennych fynediad at weithredoedd yr eiddo i'w gwirio, byddwn yn cysylltu â'r Gofrestrfa Tir ar

eich rhan i wneud cais bod chwiliad yn cael ei gwblhau i sefydlu perchnogaeth.

Byddai'n ddefnyddiol iawn petaech yn darparu gwerth bras yr eiddo, sydd ar gael gan eich gwerthwr tai lleol.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os oes morgais yn weddill ar yr eiddo, a'r swm sy'n ddyledus. Bydd angen copi

o ddatganiad morgais diweddar gan eich benthyciwr i gadarnhau hyn.

Os ydych chi'n rhentu, neu'n bwriadu rhentu'r eiddo, sicrhewch eich bod yn ein hysbysu o hyn a'r incwm rhenti wythnosol rydych/y byddwn yn ei dderbyn. Mae'r fath incwm yn gwneud gwahaniaeth i'r ffioedd wythnosol llety a aseswyd y byddwch angen eu talu. Rhowch unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn credu byddai'n berthnasol, gall hyn gynnwys pethau fel -

- Os nad ydych chi'n gallu cadarnhau perchnogaeth yr eiddo
- Bod cyfreithiwr wedi ei benodi i weithredu mewn perthynas â Chytundeb Taliadau Gohiriedig.
- Mae'r eiddo yn cael ei werthu
- Mae cais i gael Atwrneiaeth Arhosol/Dirprwyaeth wedi cael ei wneud
- Os yw'r eiddo yn parhau i fod yn wag
- Os oes rhywun yn byw yn yr eiddo sydd angen bod yn ymwybodol bod Pridiant Cyfreithiol wedi'i osod yn ei erbyn
- Bod angen tystiolaeth dogfennol ac i'w ddilyn

Adran E

Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais gydag

asiantaethau neu sefydliadau eraill i'n galluogi ni i ymgymryd â'r

gwiriadau perthnasol wrth brosesu'r cais. Byddwn yn rhannu

eich gwybodaeth gydag eraill, yn unol â'r gyfraith yn unig. Yn ôl y gyfraith, mae'r asiantaethau

a'r sefydliadau yr ydym yn rhannu eich gwybodaeth gyda nhw yn gorfod ei chadw'n

gyfrinachol a'i ddefnyddio ar gyfer y pwrpasau cydnabyddedig yn unig.

Os oes angen y wybodaeth fel rhan o ymchwiliad troseddol, neu pan mae arnom

angen eich diogelu chi, neu eraill rhag niwed, efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth, fel bo'n angenrheidiol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r rheolydd data ac sy'n gyfrifol am drin y wybodaeth rydym yn ei chadw ac rydym yn nodi bod y wybodaeth hon yn bwysig i chi. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau o ddifri a byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol yn deg, yn gywir ac yn ddiogel, yn unol â'r gofynion cyfreithiol y ddeddfwriaeth Diogelu Data cyfredol. I weld Hysbysiad Preifatrwydd Refeniw a Budd-Daliadau yn llawn, ewch i'n gwefan <http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/Benefits-and-Grants-Privacy-Notices/Revenue-and-Benefits-Privacy-Notice.aspx>

Os yw'r datganiad yn cael ei lofnodi gan y cynrychiolydd, mae'n rhaid iddynt fod

yr unigolyn a enwyd yn Adran B ar y ffurflen.

Sicrhewch eich bod yn darllen ac yn deall y datganiad yn llawn cyn llofnodi a dychwelyd eich ffurflen gais.

Unwaith rydych wedi cyflwyno eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau ein bod wedi ei dderbyn.

Os ydych chi'n newid eich meddwl ac yn penderfynu nad ydych yn dymuno

parhau gyda'ch cais, ysgrifennwch atom yn egluro hynny.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau os yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus neu wedi ei wrthod o fewn 28 diwrnod. Os yw'n cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros hyn a sut i apelio yn cael eu nodi'n glir.

Cyfeiriad dychwelyd y ffurflen; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Tîm Aseidiadau Ariannol, PO Box 1, Conwy, LL30 9GL.